# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 17eg o Ionawr 2022 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Alan H. Jones, Richard Evans, Arwel Pierce

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Geraint Evans

2. Datgan diddordeb: Dim

3. Derbyn cofnodion 6 Rhagfyr 2021:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101770 | £188.32 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101771 | £47.20 |
| Richard Evans | Lwfans | 101772 | £150.00 |
| Alan Jones | Lwfans | 101773 | £150.00 |
| Geraint Jones | Lwfans | 101774 | £150.00 |
| Simon Jones | Lwfans | 101775 | £150.00 |
| Cyngor Gwynedd | Pafiliwn | 101776 | £775.75 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

5. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd - diffyg cysgodfa bws ger Pont y Mileniwn:

Yr oedd swyddog o Gyngor Gwynedd yn cynnig mynychu cyfarfod safle.

**PENDERFYNIAD:** I gyfarfod swyddog Cyngor Gwynedd ar 1af o Chwefror am 2pm ger y toiled cyhoeddus.

6. Cais gan aelod o'r cyhoedd am beiriant diffibrileiddio - diweddariad:

Nid oedd ymateb wedi ei dderbyn yn dilyn cais o gronfa Llywodraeth Cymru,

**PENDERFYNIAD:** I'w drafod y mis canlynol.

7. Clwb Ieuenctid - cytuno ar geiriad ar gyfer hysbysebu cyfle i redeg y clwb ieuenctid:

**PENDERFYNIAD:** I roi'r hysbyseb yn rhifyn Mal Dail Dysynni, gyda dyddiad cau o 31 Mai 2022.

8. Comisiwn Elusennau – llofnodi ffurflen TR1 ar gyfer y Gofrestrfa Tir:

Yr oedd cyfreithwyr wedi anfon copi o ffurflen TR1 er mwyn trosglwyddo'r cae chwarae.

**PENDERFYNIAD:** I lofnodi y ffurflen.

9. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol – arwydd mynegbyst a chyflwr pentref Bryncrug:

Yr oedd ymateb wedi ei dderbyn yn dilyn llythyr yn egluro y byddai arwydd mynegbyst yn cael ei osod. Nodwyd nad oedd yr arwydd wedi ei osod.

Adroddodd cynghorydd bod gorchudd twll archwilio yn llithrig ac bod Cyngor Gwynedd wedi cael eu hysbysu.

Cafwyd adroddiad bod y drefn o gang cymunedol wedi ei ail-sefydlu gan Cyngor Gwynedd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

10. <u>Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol – rhaglen waith Ionawr 2022</u>:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

11. <u>Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol – biniau halen</u>:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth. Nodwyd bod yn bin graean wrth mynedfa Cae'r Ffynnon.

12. <u>Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - cyflwr meinciau</u>:

Nodwyd bod y meinciau wedi eu hatgyweirio.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

13. <u>Cyflwr tai gwag yn y pentref</u>:

Nodwyd bod pedwar tŷ yn wag ers nifer o flynyddoedd yn y pentref.

**PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr at Cyngor Gwynedd yn gofyn i'r cyngor gysylltu gyda pherchenogion tai gwag yn y pentref er mwyn eu hannog i adfer tai, gan ddarparu gwybodaeth am y grantiau sydd ar gael i ddod a tai gwag yn ôl i ddefnydd. Bwriad y llythyr fyddai cynorthwyo Cyngor Gwynedd i adnabod yr anheddau sydd yn wag.

14. <u>Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd – bedd Mari Jones</u>:

Yr oedd llythyr wedi ei dderbyn yn egluro y byddai Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd yn trafod y mater yn ei gyfarfod nesaf.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Trafod y mater pan ddaw ymateb llawn gan Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd.

15. <u>Cyngor Gwynedd/Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllaw Cynllunio Atodol – Safle Treftadaeth y Byd</u>:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

16. <u>Cyngor Gwynedd – Economi a Chymuned – Digwyddiadau Economi Ymweld Cynaliadwy 2035</u>:

Cafwyd trafodaeth am yr angen i sicrhau cyflogaeth mewn pentrefi fel Bryncrug er mwyn galluogi llefydd gwledig i gadw pobl ifanc.

**PENDERFYNIAD:** Y Cynghorydd Bethan Lawton am gynrychioli'r cyngor.

17. <u>Cyfoeth Naturiol Cymru - trefnu cyfarfod safle</u>:

**PENDERFYNIAD:** I ofyn wrth Cyfoeth Naturiol Cymru gynnig unrhyw amser yn y pythefnos nesaf sydd yn gyfleus iddynt hwy.

18. <u>Adolygu gwariant o Ebrill 2021 i Ragfyr 2021</u>:

Darparwyd taenlen Excel yn manylu ar y gwariant, a'r gwariant yn erbyn y gyllideb.

Amcangyfrifwyd bod oddeutu £3,500 o wariant i'w wneud o Ionawr 2022 hyd at Mawrth 2022, gyda oddeutu £19,500 ar ôl ym malansau'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

19. <u>Gosod cyllideb ar gyfer 2022/2023</u>:

| **CYLLIDEB** | **2022/2023** |
|---|---|
| CLERC - CYFLOG | £1,465.00 |
| CLERC - YG | £205.00 |
| CLERC - TEITHIO | £500.00 |
| CLERC - HYFFORDDIANT | £75.00 |
| GWEINYDDOL - DEUNYDD SWYDDFA | £50.00 |
| GWEINYDDOL - POSTIO | £90.00 |
| GWEINYDDOL - LLOGI YSTAFELL | £220.00 |
| GWEINYDDOL - FFÔN | £100.00 |
| GWEINYDDOL - GWEFAN | £100.00 |
| PENTREF - CYNNAL A CHADW | £1,000.00 |
| PENTREF - CELFI HANESYDDOL | £500.00 |
| PENTREF - BLODAU | £350.00 |
| PENTREF - FEINCIAU | £100.00 |
| PENTREF - LLOCHESI BWS | £500.00 |
| PENTREF - TOILED | £2,000.00 |
| PENTREF - CLWB IEUENCTID | £1,800.00 |
| PENTREF - ARWYDD CYFLYMDER | £3,000.00 |
| CAE - TRYDAN | £50.00 |
| CAE - PAFILIWN | £9,000.00 |
| CAE - TORRI GWAIR | £1,000.00 |
| CAE - OFFER CHWARAE NEWYDD | £0.00 |
| CAE - CYNNAL A CHADW OFFER | £600.00 |
| CAE - BINIAU 'SBWRIEL | £120.00 |
| CYFRANIADAU A.137 | £750.00 |
| CORFFORAETHOL - UN LLAIS CYMRU | £130.00 |
| CORFFORAETHOL - YSWIRIANT | £650.00 |
| CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD MEWNOL | £210.00 |
| CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD ALLANOL | £285.00 |
| AELODAU - ETHOLIAD | £1,500.00 |
| AELODAU - HYFFORDDIANT | £200.00 |
| AELODAU - COSTAU TEITHIO | £100.00 |
| AELODAU - LWFANS | £1,350.00 |
| AELODAU - LWFANS GOFALU | £300.00 |
| SEFYLLFA ANARFEROL | £0.00 |
| **CYFANSWM** | **£28,300.00** |

**PENDERFYNIAD:** I Iosod cyllideb fel yr uchod ar gyfer 2022/2023, sef £28,300.

20. Gosod y bresept ar gyfer 2022/2023:

**PENDERFYNIAD:** I osod y bresept ar gyfer 2022/2023 yn £13,084, sydd yn golygu codiad gwerth 1.75%, gyda gweddill o'r arian o'r balansau.

21. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-y Pafiliwn ddim wedi cael ei lanhau ar ôl defnydd gan y Clwb Pêl-droed
-y polion ffens sydd wedi torri – wyth ohonynt – heb eu hatgyweirio gan y contractwr
-y boltiau a'r gefynnau sydd wedi eu hadnabod gan ROSPA ar gyfer sylw yn cael eu gwneud
-canllaw newydd wedi ei osod ger y toiled anabl, gyda'r gwaith wedi ei gwblhau i safon uchel
-angen gosod drysau newydd ar ddrws y storfa a drws y toiled, gyda'r colfach wedi torri

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I gynnal cyfarfod arbennig gyda Chlwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug ar nos Fawrth, 22 Chwefror 2022 am 7yh.
I gael prisiau ar gyfer adnewyddu drysau ar y Pafiliwn

22. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd wedi ei ohirio
-sietyn heb ei dorri yn gyfan ar hyd y llwybr beicio rhwng Bryncrug a Thywyn, y rhan isaf wedi ei dorri ond heb dorri y rhan uchaf

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

23. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nid oes mater brys.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:17pm

Llofnod y Cadeirydd ...........................................................